

Hydoddiant mwynol gwyrthiol (MMS) a hydoddiant sodiwm clorit

Rhagor am hydoddiant mwynol gwyrthiol (miracle mineral solution neu MMS) a hydoddiant sodiwm clorit, y perygl maent yn ei beri i iechyd a beth mae ein Huned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn ei wneud i atal y defnydd ohonynt.

Caiff MMS ei ddefnyddio fel enw ar amrywiaeth o gynhyrchion. Yr un mwyaf cyffredin o'r rhain yw Hydoddiant Mwynol Gwyrthiol neu 'Miracle Mineral Solution'.

Mae MMS yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio hydoddiant sy'n cynnwys y cemegyn sodiwm clorit. Caiff hwn ei ddefnyddio fel cannydd (bleach) mewn cryfderau uchel.

Mae sodiwm clorit wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio mewn rhai gwledydd, ond fel sylwedd glanhau arwynebau ar gyfer ardaloedd a ddefnyddir i drin bwyd.

Weithiau caiff ei ddisgrifio i fod 'o safon bwyd', ond ni ddylid cymryd hyn i olygu ei fod yn ddiogel i'w fwyta neu ei yfed. Yn aml, caiff ei farchnata fel cemegyn i buro d?r.

Mae'r term Hydoddiant Clorin Deuocsid hefyd yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at hydoddiant sodiwm clorit, a chaiff hydoddiannau gwannach weithiau eu marchnata fel Ocsigen Aerobig. Waeth beth mae'n cael ei alw, mae angen i chi fod yn ymwybodol o'r risg sydd ynghlwm â'r cynnyrch hwn.

Nod y ddau gynnyrch yw rhyddhau nwy clorin deuocsid y tu mewn i'r corff, gan honni weithiau bod y broses hon yn 'puro'r corff'.

Peryglu iechyd

Mae cynhyrchion sodiwm clorit yn amrywio o ran crynodiad, dosau penodol a'r dull o'u cymryd.

Os cânt eu bwyta/yfed, mae cynhyrchion gwannach yn debygol o effeithio ar iechyd drwy achosi llid gastroberfeddol (*gastrointestinal irritation*).

O ran y cynhyrchion MMS cryfach, gallant arwain at gyfog, chwydu a dolur rhydd difrifol, a all arwain at ddadhydradu a phwysedd gwaed yn gostwng.

Os yw'r hydoddiant yn cael ei wanhau i raddau llai na'r hyn a nodir yn y cyfarwyddiadau, fe allai achosi niwed i'r stumog a chelloedd coch y gwaed, a allai arwain at fethiant y system anadlu.

Mae'n ymddangos fel petai lluniau sy'n deillio o grwpiau preifat ar y rhyngwrwyd sy'n trafod MMS yn dangos niwed i goluddion plant sydd wedi cael MMS fel enema.

Manteision therapiwtig honedig

Mae amrywiaeth o fanteision iechyd honedig ynghlwm â'r cynhyrchion hyn, ac mae'n annhebygol iawn bod yr un o'r rhain wedi'i awdurdodi.

Mae'n rhaid awdurdodi honiadau iechyd a maeth o dan [Reoliad 1924/2006](#). Yn ogystal â chael ei awdurdodi a'i gofnodi ar Gofrestr yr Undeb Ewropeaidd, ni all yr honiad fod "yn ffug, yn amwys

na'n gamarweiniol".

Mae'n bosibl bod rhai o'r honiadau iechyd am y cynnyrch hwn sy'n ymwneud â thrin canser hefyd yn mynd yn groes i [Ddeddf Canser 1939](#).

Mae'r honiadau yn amrywio o ddatganiadau generig am 'buro'r' corff i rai mwy penodol am ganser ac anhwylderau ar y sbectrwm awtistig.

Caiff y defnydd o sodiwm clorit yn y ffordd hon ei hyrwyddo'n bennaf (ond nid yn unig) gan grŵp o'r enw *Genesis II Church of Health and Healing*. Dyn o'r enw Jim Humble sy'n arwain y grŵp hwn, ac fe honnir mai ef sydd wedi creu'r 'protocol' MMS.

Statws cyfreithiol sodiwm clorit

Nid yw sodiwm clorit yn ychwanegyn bwyd sydd wedi'i awdurdodi yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae ei hysbysebu fel rhywbeth sy'n addas at y diben hwn yn mynd yn groes i [Reoliad1333/2008](#).

Os caiff y cynnyrch ei ychwanegu at wydraid o ddŵr, er enghraifft, er mwyn ei buro, byddai'n rhaid iddo fod wedi'i restru fel ychwanegyn awdurdodedig.

Os caiff ei yfed, bydd y cynnyrch yn 'fwyd anniogel' fel y diffinnir o dan [Reoliad 178/2002](#). Mae'n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd sy'n dilyn y rheoliad hwn gael gwared ar fwyd anniogel o'r farchnad. Gall bwyd barhau i fod ar y farchnad os caiff ei gynnig am ddim neu fel rhodd. Dyma yw'r achos weithiau gydag MMS.

Gweithgarwch yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

Mae'r Uned, sy'n gweithredu o fewn ein Hasiantaeth, wedi cymryd camau rheolaidd i leihau bygythiad hydoddiannau sodiwm clorit, yn arbennig MMS, ac i sicrhau nad yw ar gael.

Mae ein gweithgarwch wedi cynnwys:

- gweithio gyda marchnadoedd ar-lein mawr
- cydgysylltu ymatebion awdurdodau lleol a phartneriaid i werthwyr sydd wedi'u nodi yn y Deyrnas Unedig
- cyflwyno cwynion camdrin i dynnu gwefannau oddi ar y we
- rhannu gwybodaeth (intelligence) gyda phartneriaid rhyngwladol

Os ydych chi'n gweld bod sodiwm clorit ar werth mewn unrhyw ffordd, mae angen i chi roi gwybod i'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd cyn gynted â phosibl.

Gallwch wneud hynny drwy ddefnyddio'r ffurflen hon.